Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penygelli

**Ffordd y Castell**
**Coedpoeth**
**LL11 3LS**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penygelli

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Penygelli |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 293 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 234 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 30 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 30.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 15.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/11/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/05/2023 |
| * | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Penygelli yn darparu amgylchedd cynnes a gofalgar ar gyfer disgyblion. Mae disgyblion, staff a'r gymuned yn falch o'r ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal da gan eu hathrawon y mae ganddynt berthnasoedd gweithio cryf â nhw. At ei gilydd, mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac maent yn trin ei gilydd ac oedolion â pharch.

Mae aelodau o'r tîm arweinyddiaeth dros dro a ffurfiwyd yn ddiweddar wedi ailsefydlu diwylliant cadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth dros dro, gyda chymorth gan y dirprwy bennaeth, yn hynod weladwy ac yn gweithio'n dda gydag aelodau staff eraill tuag at gyflawni eu gweledigaeth i ddarparu amgylchedd gofalgar, meddylgar, hapus a diogel ar gyfer disgyblion. Maent wedi dod â staff at ei gilydd trwy gyfnod heriol ac wedi ailsefydlu gweledigaeth ar gyfer lles a pherthyn ar draws cymuned yr ysgol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau llafaredd, darllen, corfforol a chreadigol yn dda, ond nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd o ran datblygu eu medrau ysgrifennu a rhifedd.

Yn ddiweddar, mae'r tîm arweinyddiaeth dros dro wedi sefydlu systemau effeithiol i ennill dealltwriaeth well o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw prosesau gwerthuso a gwella'r ysgol wedi bod yn ddigon effeithiol o ran sicrhau gwelliannau i agweddau pwysig ar addysgu a dysgu.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a rhieni yn gryfder, gan roi'r ysgol yng nghanol y gymuned. Ceir ymdeimlad o falchder mewn bod yn gysylltiedig â'r ysgol ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r rôl gadarnhaol y mae'n ei chwarae mewn datblygu brwdfrydedd eu plant dros ddysgu.

## Argymhellion

A1 Datblygu'r cwricwlwm ymhellach i sicrhau ei fod yn cefnogi datblygu medrau disgyblion yn raddol, yn enwedig ysgrifennu a rhifedd, wrth iddynt symud trwy'r ysgol

A2 Gwella'r agweddau ar addysgu a phrofiadau y nodwyd yn yr adroddiad eu bod yn llai effeithiol

A3 Mireinio prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol i ganolbwyntio'n fanwl ar ysgogi gwelliannau i addysgu a dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau mewn cyfnod datblygu sy’n debyg i’r rhai a ddisgwylir am eu hoedran, neu ychydig yn is. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu, at ei gilydd. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn, yn enwedig y rhai mwy abl, bob amser yn gwneud cynnydd digon da. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau.

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymgynefino’n gyflym. Maent yn dechrau gwrando’n dda ar oedolion ac yn dilyn cyfarwyddiadau’n ofalus. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, maent yn datblygu eu medrau llafaredd yn bwrpasol. Mae bron pob un ohonynt yn cyfathrebu’n hyderus ag oedolion a phlant eraill ac yn siarad yn frwdfrydig am eu hysgol a’u dysgu. Mewn ychydig o grwpiau blwyddyn, mae disgyblion wedi dechrau ehangu eu medrau cyfathrebu trwy ddysgu Iaith Arwyddion Prydain.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau darllen. Ar draws yr ysgol, maent yn datblygu mwynhad o ddarllen ac yn ymateb yn hyderus i destunau yn ystod sesiynau darllen mewn grŵp. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin yn gwrando ar stori â diddordeb, ac mae ychydig ohonynt yn dewis eu hoff lyfrau, gan droi’r tudalennau a siarad am y lluniau’n hyderus. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth addas o’r berthynas rhwng llythrennau a seiniau a sut mae seiniau’n cyfuno i ffurfio geiriau. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd dros ddarllen. Mae disgyblion hŷn yn trafod llyfrau’n bwrpasol ac yn rhannu eu rhesymau dros ddewis arddull llyfr yn hyderus. Maent yn defnyddio atalnodi’n effeithiol i ffurfio eu darllen, er enghraifft i newid eu tôn pan fydd cymeriad yn siarad. Maent yn dehongli ystyr geiriau ac yn gwneud rhagfynegiadau addas am beth maen nhw’n meddwl allai ddigwydd nesaf yn y stori a pham. Mae bron pob un o’r disgyblion yn siarad yn gadarnhaol am gyfleoedd i ddatblygu eu medrau darllen, fel y clwb darllen a gyflwynwyd yn ddiweddar.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau ysgrifennu. Mae disgyblion ifanc yn dechrau defnyddio’u gwybodaeth am seiniau llythrennau i’w helpu i ddarllen ac ysgrifennu geiriau cyfarwydd, fel eu henwau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn meddu ar fedrau ffonolegol ddigon cadarn, ac o ganlyniad, mae cywirdeb y sillafu yn rhy amrywiol. Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o genres ac at amrywiaeth o ddibenion diddorol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn creu cofnodion dyddiadur o safbwynt

ffigurau hanesyddol enwog fel Rosa Parks a Martin Luther King. Fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n greadigol yn aml iawn. Ar draws yr ysgol a'r ystodau gallu, mae disgyblion yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar sgaffaldiau i gefnogi eu hysgrifennu.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif boddhaol. Yn y dosbarth meithrin, maent yn cyfrif ac yn rhoi rhifau yn eu trefn yn gywir i 10. Maent yn trosglwyddo'u medrau mathemateg i'w gweithgareddau chwarae, er enghraifft wrth gyfrif a didoli marblis yn lliwiau yn ystod dysgu yn yr awyr agored. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfrifo syml ac yn defnyddio rhifau i 100 yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu dulliau cyfrifo cadarn ac yn cymhwyso'r rhain i weithgareddau datrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cymhwyso dull esgyrn Napier i luosi dau rif dau ddigid yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol i gefnogi a chyflwyno'u dysgu. Mae disgyblion iau yn defnyddio dyfeisiau llechen, er enghraifft i chwarae gemau rhifedd i gefnogi eu dysgu wrth adnabod rhifau. Mae disgyblion hŷn yn agor ffeiliau wedi'u cadw yn briodol, yn gweithio'n dda gydag ystod o apiau a pheiriannau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth ac yn ysgrifennu codau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio ystod o raglenni yn annibynnol a gyda hyder cynyddol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn creu gwefannau gyda thudalennau â hyperddolenni yn gysylltiedig â phrosiect dosbarth ar Gaerdydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn siarad Cymraeg ac yn mwynhau dysgu'r iaith. Maent yn cymryd rhan yn weithgar mewn sesiynau rheolaidd Helpwr Heddiw, gan ddefnyddio patrymau a geirfa gyfarwydd yn hyderus i chwarae ystod o gemau. Ar draws yr ysgol, mae medrau siarad a gwrando llawer o ddisgyblion yn Gymraeg yn gyson dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn ysgogi ac yn ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau syml yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cynnal sgyrsiau manylach yn annibynnol, gan ddefnyddio amser y gorffennol yn hyderus. Maent yn darllen ac yn ysgrifennu ystod o ddeunyddiau yn seiliedig ar amrywiaeth o batrymau a ddysgwyd.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn briodol ac yn dechrau ffurfio llythrennau'n gywir. Daw llawer o ddisgyblion yn gynyddol annibynnol yn eu dysgu. Er enghraifft, penderfynodd disgyblion yn y dosbarth meithrin greu trac rasio lludw â cheir tegan cyn eu golchi â brwsys dannedd yn y man golchi ceir. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw medrau disgyblion wrth ddysgu'n annibynnol, fel meddwl yn greadigol a datrys problemau, bob amser yn datblygu'n ddigon da. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn oherwydd bod tasgau'n cael eu strwythuro'n ormodol gan oedolion. Yn aml, mae disgyblion yn treulio gormod o amser yn ymgymryd â gweithgareddau ar lefel gymharol isel yn eu 'cenadaethau' ac nid yw'r rhain yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'u medrau presennol ar y lefel y gallant.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo’n dda gan athrawon a staff cymorth. Maent yn gwybod bod staff yn gwrando ar eu barn ac yn deall at bwy y gallant droi am gymorth ac arweiniad. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn falch o fod yn rhan o Ysgol Penygelli.

Mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn eithriadol o dda. Maent yn gwybod beth yw disgwyliadau’r ysgol ar gyfer ymddygiad ac yn deall y gwobrau a’r canlyniadau ar gyfer ymddygiad da neu ymddygiad gwael. Maent yn gwrando’n dda yn y dosbarth, yn dangos parch at oedolion a charedigrwydd tuag at eu ffrindiau. Maent yn symud yn ofalus ac yn gyflym at eu gweithgareddau dysgu ac yn gweithio’n dda gyda’i gilydd, gan ddangos ystyriaeth i syniadau pobl eraill.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. At ei gilydd, maent yn ymgysylltu’n dda â thasgau dysgu ac yn dal ati i ganolbwyntio, yn aml gan ddangos penderfyniad i gwblhau eu gwaith. Mae disgyblion yn ymgysylltu’n frwdfrydig â’u testunau dosbarth, a phan roddir cyfle iddynt, yn mwynhau herio’u hunain i gymhwyso’u medrau mewn cyd-destunau anghyfarwydd i ddatrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion o Flwyddyn 5 a 6 yn gweithio gyda’i gilydd yn ystyriol i gwblhau gorchwyl achub fel rhan o’u dysgu yn yr awyr agored.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu strategaethau defnyddiol i’w helpu i oresgyn anhawster. Er enghraifft, maent yn esbonio sut i ddefnyddio strategaeth ‘Brain, Buddy, Boss’, sy’n cael ei hadnabod fel y ‘three B’s’, i symud eu dysgu ymlaen pan fyddant yn cael trafferth. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar yn ystod gwersi ac yn ei ddefnyddio i wella’u gwaith. Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau defnyddio adborth ysgrifenedig gan athrawon a chyd-ddisgyblion i’w helpu i wella’u gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn deall yn glir beth mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella’u dysgu ymhellach.

Mae disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth dda o’u hawliau a’u cyfrifoldebau, ac mae llawer ohonynt yn datblygu fel unigolion moesegol a gwybodus sy’n gwerthfawrogi’r byd maen nhw’n byw ynddo. Mae disgyblion yn awyddus i ofalu am eu hamgylcheddau dysgu ac yn deall y gwahaniaeth y gallant ei wneud. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn esbonio sut i ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Caiff disgyblion gyfleoedd da i gymryd rhan mewn grwpiau disgyblion fel y Criw Cymraeg, y Pwyllgor Eco a’r Cyngor Ysgol. Caiff disgyblion yn y grwpiau hyn eu parchu’n dda gan eu cyd-ddisgyblion, ac fe gânt effaith gref ar wella’r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y Criw Cymraeg yn helpu gwella agweddau at ddefnyddio’r Gymraeg ar draws yr ysgol trwy arwain gwasanaethau rheolaidd sy’n annog disgyblion i garu byw yng Nghymru a chael hwyl yn defnyddio’r iaith.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i gadw’n heini ac yn iach. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta diet iach a chytbwys. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn cynllunio diet cytbwys ar gyfer athletwr ac yn esbonio pam mae rhai grwpiau bwyd fel siwgrau yn gallu arwain at afiechyd os cânt

eu bwyta'n ormodol. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau sy'n cadw eu cyrff yn iach, gan gynnwys gwersi nofio rheolaidd, ac mae llawer ohonynt yn manteisio'n dda ar yr amrywiaeth eang o glybiau ar ôl yr ysgol, yn cynnwys pêl-droed, pêl-rwyd a dawns.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel ar-lein. Maent yn gwybod am bwysigrwydd peidio â rhannu gwybodaeth bersonol, ac mae disgyblion hŷn yn esbonio peryglon posibl cyfryngau cymdeithasol a sut i roi gwybod am bryderon, er enghraifft i'w rhieni neu oedolyn cyfrifol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm yn unol ag ethos y Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn defnyddio'r fro yn ystyriol i ymestyn y cwricwlwm ac yn datblygu ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy'n gwella dealltwriaeth disgyblion o'r ardal leol a'u hymdeimlad o berthyn i'r gymuned, sef Cynefin. Mae bron pob un o'r athrawon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu syniadau ar ddechrau pob testun newydd. Er enghraifft, dylanwadodd disgyblion hŷn ar brosiect ar faterion amgylcheddol.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn ymgysylltiad bron pob un o'r disgyblion yn briodol. Mae staff yn cynllunio'n addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion hŷn yn benodol ddatblygu eu medrau digidol. Mae'r ysgol yn darparu ystod ddiddorol o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau iaith, gan gynnwys Cymraeg ar draws yr ysgol a Ffrangeg ac Iaith Arwyddion Prydain ym Mlynyddoedd 5 a 6. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer ysgrifennu a rhifedd estynedig yn flaengar ar draws yr ysgol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau dysgu ysgogol. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i rannu arbenigedd a chreu cwricwlwm sy'n darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r medrau a'r wybodaeth y maent eisiau i ddisgyblion eu datblygu yn ystod y profiadau dysgu hyn. O ganlyniad, yn aml, mae diffyg her yn y cyfleoedd ar gyfer dysgu, yn enwedig tasgau annibynnol, ac nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau i lefel ddigon uchel nac yn gwneud digon o gynnydd. Nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm bob amser yn sicrhau bod yr addysgu'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion nac yn sicrhau dilyniant, yn enwedig pan fydd disgyblion hŷn yn gweithio'n annibynnol.

Mae darpariaeth yn nosbarth meithrin yr ysgol yn cyd-fynd ag egwyddorion dysgu sylfaen yn dda. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu trwy chwarae ac archwilio, ac maent yn derbyn cymorth effeithiol gan oedolion. Fodd bynnag, wrth iddynt symud ymlaen, mae cyfleoedd iddynt arwain eu dysgu eu hunain yn lleihau. Maent yn ymgymryd â 'chenadaethau' yn rheolaidd, ac o bryd i'w gilydd, mae'r gweithgareddau hyn a gynlluniwyd yn eu cynorthwyo i gymhwyso'u medrau'n dda, er enghraifft wrth greu drysfeydd i ddisgyblion eraill ddod o hyd i'r ffordd. O Flwyddyn 3 i 6, mae gweithgareddau cenhadaeth yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae athrawon yn cynllunio'r gweithgareddau hyn heb ganolbwyntio ar y medrau, y wybodaeth neu'r ddealltwriaeth y maent yn

disgwyl i ddisgyblion eu datblygu. Mae disgyblion yn treulio gormod o amser ar weithgareddau lefel isel nad ydynt yn eu herio'n ddigon da.

Mae disgyblion yn elwa ar amgylchedd awyr agored helaeth yr ysgol. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd dysgu priodol i ddisgyblion archwilio, ymarfer ac ymestyn eu medrau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn defnyddio'u medrau mesur yn gywir i greu cynefin i ddenu gwenyn i ardd yr ysgol. Mae darpariaeth yr ysgol goedwig yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau datrys problemau a medrau corfforol disgyblion, yn ogystal â'u lles. Mae staff yn defnyddio ardal ddysgu 'Hagrid's Hut' i gynllunio gwersi cyffrous ar gynaliadwyedd a bwyta'n iach.

Mae pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn eu trin â charedigrwydd a pharch. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n effeithiol i gefnogi lles disgyblion ac unigolion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae hyn yn helpu bron pob un o'r disgyblion i ymddwyn yn dda yn yr ysgol, ac yn rhoi'r hyder iddynt rannu eu syniadau, gofyn cwestiynau a bod yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn gwneud defnydd da o holi i herio meddwl disgyblion, nodi camdybiaethau a symud eu dysgu ymlaen. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir sy'n cynorthwyo disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae staff yn rhy awyddus i ddarparu cymorth ac yn gor-sgaffaldio dysgu'r disgyblion. O ganlyniad, ni roddir digon o gyfle i ddisgyblion ddatblygu gwaith sy'n wreiddiol ac yn adlewyrchu eu meddwl eu hunain.

Mae staff yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o asesu effeithiol sy'n symud dysgu ymlaen. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw'r adborth yn nodi camau nesaf y disgyblion yn ddigon clir, ac ni chaiff disgyblion gyfleoedd digon rheolaidd i wella ansawdd eu gwaith. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion bob amser yn gwneud digon o gynnydd dros gyfnod, er enghraifft wrth ysgrifennu'n greadigol neu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gryf. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda staff i sicrhau ffocws clir ar les disgyblion, ac yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Dan arweiniad y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf tuag at ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod athrawon a staff cymorth yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae staff yn gweithio ochr yn ochr â disgyblion a'u rhieni i greu proffiliau un dudalen i gefnogi dealltwriaeth ar y cyd o anghenion disgyblion.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol wedi datblygu systemau cynhwysfawr i nodi disgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt mewn agweddau ar eu dysgu. Mae'n cydweithio'n effeithiol â staff i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a nodwyd ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn dyrannu cymorth yn

ystyriol ac yn monitro'i effaith ar y cynnydd a wna disgyblion. Mae tîm cryf o gynorthwywyr addysgu yn cefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn fedrus ac yn cyflwyno ystod dda o grwpiau ymyrraeth, er enghraifft i wella medrau darllen disgyblion a chefnogi eu lles emosiynol.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae ganddynt berthnasoedd gweithio rhagorol â disgyblion ac maent yn delio â phroblemau'n gyflym ac yn sensitif. Mae staff yn cynnwys cyfleoedd i fonitro sut mae disgyblion yn teimlo ac yn eu cynorthwyo i reoli eu hemosiynau eu hunain fel eu bod yn barod i ddysgu. Mae staff wedi'u hyfforddi'n dda yn cyflwyno ymyriadau i ddisgyblion sydd angen mwy o gymorth. Mae hyn yn gwella'u hymddygiad yn yr ysgol ac yn y cartref, ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cymorth hwn.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i fod yn ddinasyddion gweithredol a chael effaith yn eu cymuned leol. Er enghraifft, mae grwpiau llais y disgybl yn trefnu digwyddiadau codi arian i gynorthwyo'r rhai sydd mewn angen, ac yn gwneud blancedi ar gyfer yr Uned leol i Fabanod dan Ofal Arbennig. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion rannu eu syniadau ar gyfer gwella amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys darparu 'blwch bodio' i helpu disgyblion i ddatblygu strategaethau i wella'u ffocws mewn gwersi.

Mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu cariad o'r awyr agored a gwerthfawrogiad o'r fro. Maent yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn yr ysgol goedwig, yn ogystal ag ymweliadau mynych â pharciau a choetiroedd lleol. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi i ddisgyblion, gan gynnwys cerddoriaeth a dawnsio Cymreig traddodiadol, i'w helpu i ddeall diwylliant a threftadaeth Cymru a'u lle ynddi.

Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu ysgrifennu empathig yn seiliedig ar fywyd Rosa Parks ac maent yn trafod problemau anos fel hiliaeth mewn cymdeithas fodern. Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o brif grefyddau'r byd, ac i ddisgyblion Blwyddyn 6 fyfyrio ar eu codau eu hunain ar gyfer bywyd, a'u hymatebion i gyfyng-gyngor moesol yn briodol i oedran.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau corfforol fel rhan o'r cwricwlwm. Mae disgyblion yn mynychu gwersi nofio yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau chwaraeon ysgol. Caiff y cwricwlwm ei ymestyn gan bobl sy'n ymweld â'r ysgol, fel chwaraewyr o glwb pêl-droed Wrecsam, sy'n gweithio gyda disgyblion i ddatblygu eu medrau datrys problemau yn yr awyr agored ac yn cefnogi eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae ystod eang o glybiau allgyrsiol yn ehangu profiadau disgyblion ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu amrywiaeth o fedrau i ymgymryd â diddordebau newydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau drama, yn dysgu sut i siarad Ffrangeg, yn datblygu eu medrau cymorth cyntaf ac yn datblygu eu medrau datrys problemau gan ddefnyddio deunyddiau adeiladu. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn dysgu am fyd gwaith, er enghraifft trwy gymharu cyflogau neu gymryd rhan mewn 'wythnos darganfod gyrfa' lle maent yn edrych ar amrywiaeth o swyddi, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thechnoleg neu archaeoleg.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf. Mae arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith, y mae pob un o'r staff yn eu dilyn i sicrhau diogelwch dysgwyr a staff. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb yn effeithiol. Ceir cyfathrebu addas â rhieni, a rhoddir pwyslais clir ar bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae staff yn gweithio gyda'r Swyddog Lles Addysg i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer teuluoedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan yr ysgol drefniadau arweinyddiaeth dros dro ar hyn o bryd. Yn y cyfnod byr iawn y mae'r trefniadau hyn wedi bod ar waith, maent wedi dod â sefydlogrwydd mawr ei angen i gymuned yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro, y dirprwy bennaeth ac aelodau staff eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn dda tuag at gyflawni eu gweledigaeth i ddarparu amgylchedd gofalgar, ystyriol, hapus a diogel ar gyfer disgyblion. Maent wedi dod â thîm at ei gilydd trwy gyfnod heriol ac wedi ailsefydlu gweledigaeth ar gyfer lles a pherthyn ar draws cymuned yr ysgol. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer hapusrwydd a lles disgyblion. Maent yn darparu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar i bawb. Mae arweinwyr yn sefydlu a chynnal diwylliant diogelu cadarnhaol.

At ei gilydd, mae gan y tîm arweinyddiaeth dros dro ddarlun cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn dechrau ymgymryd ag ystod o weithgareddau monitro priodol, fel craffu ar waith disgyblion, teithiau dysgu a gwrando ar ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso'r gwahaniaeth y mae addysgu a phrofiadau dysgu'n ei wneud i gynnydd disgyblion. Mae diffyg trylwyredd yn y trefniadau i werthuso'r addysgu, ac nid ydynt yn nodi achosion o addysgu aneffeithiol sy'n cyfyngu ar gynnydd ac ymgysylltiad disgyblion â dysgu. At ei gilydd, nid oes gan ddysgwyr a staff ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer cynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn annog staff i ymgysylltu â dysgu proffesiynol i wella'u medrau a'u heffeithiolrwydd mewn cefnogi disgyblion. Mae staff yn defnyddio'u rheoli perfformiad yn briodol i nodi gweithgareddau addas i gefnogi eu datblygiad personol, yn ogystal â gweithgarwch i wella'r ysgol. Mae arweinwyr yn dechrau ystyried y cysylltiadau rhwng datblygu'r ysgol a dysgu proffesiynol. Er enghraifft, i gynorthwyo staff ag addysgu Cymraeg, datblygodd yr ysgol becyn dysgu proffesiynol ochr yn ochr â'r rhanbarth. Fodd bynnag, nid yw dysgu proffesiynol a gwelliant i'r ysgol bob amser yn cyd-fynd â'i gilydd yn ddigon da, ac nid yw arweinwyr yn monitro effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd yr addysgu yn drylwyr, nac ar gynnydd disgyblion, yn ddigon da. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu cyfleoedd i staff ar draws yr ysgol ddatblygu eu medrau arwain.

Bu newidiadau sylweddol i aelodaeth y corff llywodraethol yn ddiweddar. Caiff llywodraethwyr eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol, ac maent yn adnabod yr ysgol a'r ardal leol yn dda. Maent yn dechrau datblygu eu rolau ac yn dysgu am sut orau y gallant gefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol. Maent wedi dechrau ystyried pa mor effeithiol yw dysgu yn yr ysgol, er enghraifft trwy ymuno ag arweinwyr mewn

gweithgareddau hunanwerthuso. Mae llywodraethwyr cyswllt a sefydlwyd yn ddiweddar yn dechrau gweithio ochr yn ochr â staff yr ysgol i werthuso'r ddarpariaeth mewn meysydd allweddol. Er enghraifft, mae llywodraethwr cyswllt yn ymuno â'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i fonitro effaith cymorth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llywodraethwyr yn goruchwylio bwyta ac yfed yn iach yn addas ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rôl mewn diogelu.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol a'r grant datblygu disgyblion yn dda. Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, yn monitro gwariant yn agos ac yn gwneud addasiadau addas i sut maent yn dyrannu cyllid. Maent yn creu cynlluniau â chostau i wella'r amgylchedd dysgu. Fodd bynnag, mae dyraniad cyllid i wella blaenoriaethau'r ysgol yn llai sefydledig.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryfder, gan ddod â'r ysgol i ganol y gymuned. Mae'r ysgol yn croesawu rhieni a theuluoedd ar unrhyw adeg ac yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni i sicrhau eu bod yn ymwybodol o weithgareddau o ddydd i ddydd. Mae ap a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi gwella cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref, gan alluogi rhieni i gael gwybodaeth am ddiwrnod eu plant yn yr ysgol. Mae rhieni'n canmol yr ymrwymiad a ddangosir gan arweinwyr a staff i'w cynorthwyo nhw a dysgu eu plant.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2023